PECYN YR ECOLEGYDD

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

## Pecyn B: Ecolegwyr | Rhan 2: Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Cyfres Gwella Cartrefi

GREEN MAN ECOLOGY

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

- Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

- Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD ... 1
1.1 Nod y ddogfen yma ... 1
2 YR AROLWG ... 1
2.1 Nod yr arolwg a'r strategaeth ... 1
2.2 Caniatâd cynllunio ac adeiladau rhestredig ... 2
3 Y MATHAU O AROLYGON ... 2
3.1 Arolwg bwrdd gwaith ... 2
3.2 Arolwg ar droed ... 2
3.3 Arolwg o'r ystlumod yn dod allan ... 3
3.4 Arolwg o ben sgaffald ... 3
4 DATA'R AROLWG ... 4
4.1 Cofnodion biolegol ... 4
4.2 Data'r arolwg ar droed ... 4
5 MESURAU LLINIARU ... 4
6 TRWYDDED RHANDDIRYMIAD Y RHYWOGAETHAU A WARCHODIR GAN EWROP (EPS) .. 5
7 ARCHWILIO'R MESURAU LLINIARU ... 5
8 GWELLA BIOAMRYWIAETH ... 5
9 YR ADRODDIAD ... 6
9.1 **Fformat yr Adroddiad ... 6**
APPENDIX A: SURVEY METHOD ... 7
ATODIAD B: Y DULLIAU LLINIARU ... 8
ATODIAD C: TAFLEN DDATA'R AROLWG AR DROED ... 9
ATODIAD D: TEMPLED YR ADRODDIAD ... 10

## FFIGURAU

Ffigur B2-1: Strategaeth arolygu'r rhywogaethau a warchodir *yn seiliedig ar y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ... 7
Ffigur B2-2: Dewis y strategaeth liniaru ... 8

## TABLAU

Tabl B2-1: Enghraifft o daflen ddata'r arolwg ar droed ... 9

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Nod y ddogfen yma

1.1.1 Mae'r ddogfen yn cynnig arweiniad (nid rheolau) i ecolegwyr ynglyn â sut mae cynnal arolygon o rywogaethau a warchodir (ystlumod ac adar) ar adeiladau y mae eu waliau allanol wedi eu hinsiwleiddio ac mae'n rhoi cyfrif am y cyfyngiadau sydd ohoni o ran amser, maint y cynllun, arian a'r adnoddau ariannol a dynol.

1.1.2 Dyw'r ddogfen ddim am ailadrodd dim o'r canllawiau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi (er enghraifft, y canllawiau sy'n ymwneud ac arolygon ystlumod).

1.1.3 Dyw'r ddogfen yma ddim yn manylu ynglŷn ag asesiadau risg ac iechyd a diogelwch. Bydd gan y cwmniau sy'n darparu'r cynlluniau eu systemau eu hunain ar gyfer hynny, a chyfrifoldeb yr ecolegydd yw canfod beth sy'n ofynnol (e.e. Cyfarpar Diogelu Personol, asesiadau risg, cardiau CSCS, yswiriant Indemniad Personol, yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, y drefn wrth ymweld â safle).

# 2 YR AROLWG

## 2.1 Nod yr arolwg a'r strategaeth

2.1.1 Bydd angen arolwg ecolegol ar gyfer ystlumod ac adar sy'n nythu, sef y bywyd gwyllt a warchodir sydd fwyaf tebygol o ddioddef effeithiau negyddol o ganlyniad i gynllun IWA.

2.1.2 Dylai'r arolwg ecolegol ddilyn y strategaeth sydd yn ffigur B2-1 yn Atodiad A.

2.1.3 Dylid anelu at gwblhau cymaint o'r arolwg â phosib ar sail y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ac o fewn y cyfyngiadau amser, maint, a chyllideb y cynllun. Yn aml mae cynlluniau IWA yn cael eu cyfyngu gan amser ac adnoddau (gweler Rhan 1, Cyflwyniad Cyffredinol). Mewn nifer o achosion, caniateir y lefel isaf o arolwg ecolegol (bwrdd gwaith, ar droed, ac archwiliad o ben sgaffald) ar yr amod y caiff mesurau lliniaru parod eu rhoi ar waith os deuir o hyd i nodweddion bywyd gwyllt posib o dan ddarpariaethau Trwydded Rhanddirymiad (gweler Rhan 1 a Rhan 3 Pecyn yr Ecolegwyr). Mae'r strategaeth yn cymryd na fydd digon o amser nac adnoddau'n i gyflawni arolwg digonol i gadarnhau bod bywyd gwyllt yn defnyddio rhyw nodwedd neu'i gilydd, ac felly mae'n well arfer dull rhagofalus o liniaru, oni bai bod amgylchiadau arbennig (e.e. yr angen am arolwg brys ar gyfer cynllunio, neu mae angen mwy o fanylion am rywogaeth a warchodir ar gyfer adeilad penodol).

## 2.2 Caniatâd cynllunio ac adeiladau rhestredig

2.2.1 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwella ynni'n perthyn i gategori'r datblygiadau a ganiateir, er y bydd rhai awdurdodau lleol yn mynnu caniatâd cynllunio (e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

2.2.2 The project managers in charge of the scheme should find out whether properties are listed and whether buildings are affected by any other conservation restrictions that might negate eligibility for EWI.

2.2.3 Dylai'r rheolwyr prosiect sy'n gyfrifol am y cynllun ganfod a yw'r eiddo dan sylw wedi'i restru ai peidio, a ph'un a oes cyfyngiadau cadwraethol eraill ar yr adeiladau a allai olygu nad ydynt yn gymwys ar gyfer IWA.

# 3 Y MATHAU O AROLYGON

## 3.1 Arolwg bwrdd gwaith

3.1.1 Mae o gymorth i wneud archwiliad digidol o'r adeiladau sy'n rhan o'r cynllun, gan ddefnyddio rhaglen golwg ar strydoedd (e.e. trwy fapiau peiriant chwilio cyfarwydd). Ni ellir chwilio am bresenoldeb posib bywyd gwyllt gyda'r dull hwn, ond mae modd cael argraff o'r mathau o adeiladau sydd dan sylw er mwyn cynllunio arolwg ar droed, a nodi rhifau a lleoliadau'r tai.

3.1.2 Dylech bob amser ofyn am weld cofnodion biolegol ardal y cynllun, os oes rhai. Mae rhai canolfannau cofnodion biolegol yn cynnig chwiliad penodol am 'ystlumod ac adar' mewn achosion lle nad oes angen cael cofnodion yr holl rywogaethau. Cofiwch, dyw'r ffaith nad oes cofnodion ar gyfer ardal benodol ddim yn golygu nad oes rhywogaethau'n bresennol yn yr ardal honno. Os bydd y cofnodion yn dangos bod ystlumod neu adar o fewn ardal y cynllun, rhaid cynnal archwiliad manylach (archwilio gwagleoedd y toeau a bondo'r adeiladau'n fwy manwl). Gall fod angen arolwg sy'n dangos yr ystlumod yn dod allan ac yn dychwelyd.

3.1.3 Sicrhewch eich bod yn cael holl fanylion y gwaith arfaethedig gan y contractwyr. Gall fod gwaith arall ar droed ar yr un pryd, a allai effeithio ar adar ac ystlumod; er enghraifft, ailosod to cyfan, tynnu simneiau, ailosod estyll y bondo a'r estyll tywydd, cau'r bargod, neu selio top wal geudod.

## 3.2 Arolwg ar droed

3.2.1 Gwnewch arolwg ar droed o bob eiddo sy'n rhan o'r cynllun. Darperir enghraifft o daflen arolwg ar droed yn Atodiad C (Tabl B1-1).

3.2.2 Dylai un arolwg ar droed fod yn ddigon os gellir arolygu'r holl dai sy'n rhan o'r cynllun ar yr un pryd. Weithiau, caiff tai cyfagos eu hychwanegu at y cynllun yn ddiweddarach, a bydd angen ymweliad arall os digwydd hynny.

3.2.3 Dylid cynnal arolygon ar droed cyn gynted â phosib ar ddechrau cynllun. Mae'n bosibl y bydd y contractwyr yn dal i gysylltu â pherchnogion y tai, a bydd y rhestr o'r tai sy'n rhan

o'r cynllun IWA yn newid ac yn datblygu o hyd (h.y. ni fydd y rhestr yn derfynol). Mae'n well arolygu gormod ar yr un tro na gorfod ymweld dro ar ôl tro.

3.2.4 Mae'n bwysig iawn parchu preifatrwydd pobl yn ystod yr arolwg ar droed. Mae'n bosib na fydd y contractwyr wedi cysylltu â phob un o berchnogion y tai eto, neu mae'n bosib mai dim ond newydd gael gwybod am y cynllun y maen nhw trwy'r post. Peidiwch â defnyddio fflachlamp na binociwlars (oni bai bod modd gwneud hynny heb dynnu sylw). Peidiwch â mynd i mewn i erddi na thir preifat arall. Gwnewch yr arolwg o'r pafin yn unig. Yn anffodus bydd hynny'n cyfyngu ar eich gallu chi i arolygu cefnau'r tai, ac efallai y bydd angen archwilio'r ardaloedd hynny o ben sgaffald yn nes ymlaen. Dylid nodi hynny yn yr arolwg.

3.2.5 Dylai ecolegwyr wisgo bathodyn adnabod er mwyn gallu cadarnhau pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud os bydd aelod o'r cyhoedd yn gofyn. Efallai y cewch chi lythyr oddi wrth y cleient (e.e. awdurdod lleol/contractwr) yn esbonio'r hyn rydych chi'n ei wneud. Gofynnwch i'r contractwr a oes angen unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol. Unwaith y bydd swyddfa'r safle wedi'i sefydlu, bydd modd dynodi'r holl ardal sy'n rhan o'r cynllun yn safle adeiladu ar gyfer unrhyw weithwyr, is-gontractwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â'r cynllun. Yna efallai y bydd angen gwisgo'r holl Gyfarpar Diogelu Personol (e.e. het galed, menig, dillad llachar ac esgidiau addas). Os nad oes angen Cyfarpar Diogelu Personol, ystyriwch wisgo siaced gyda logo'r contractwr arni fel ffordd arall o gadarnhau pwy ydych chi a beth yw eich gwaith os bydd rhywun yn gofyn.

## 3.3 Arolwg o'r ystlumod yn dod allan

3.3.1 Holwch a yw'r awdurdod lleol yn gofyn am arolygon o'r ystlumod yn dod allan ai peidio. Dyw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddim yn gofyn amdanynt, ond mae rhai (e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) yn gofyn amdanynt gyda'r cais cynllunio. Efallai y bydd archwiliad cychwynnol yn ddigon, a bwrw bod lefel yr arolwg yn cyd-fynd â'r canllawiau cyhoeddedig.[1] Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch i'r Ecolegydd neu Swyddog Bioamrywiaeth yr awdurdod lleol.

3.3.2 Mae'n gallu bod yn anodd cynnal arolwg o'r ystlumod yn dod allan mewn cynlluniau mawr, a gallant fod yn gostus, yn hirfaith, ac yn faich sylweddol ar adnoddau'r arolygwr. Mae'n bosib na fydd modd cynnal arolwg o'r ystlumod yn dod allan os yw'r cynllun yn dechrau y tu allan i dymor yr ystlumod, ac os felly bydd angen cynnal arolwg o ben sgaffald, ac arolwg o'r gwagleoedd, ar adeiladau lle gall ystlumod gael mynediad trwy'r bargod. Os na fydd angen arolwg brys at ddibenion cynllunio, ystyriwch a oes gwir angen arolwg o'r ystlumod yn dod allan. A ellir cael digon o wybodaeth trwy gynnal archwiliad o'r gwagleoedd a'r adeilad o ben y sgaffald? Os oes gofyn cynnal arolygon, ond does dim modd gwneud hynny o fewn y cyfnod ariannu, yna bydd angen dileu'r tai hynny o'r cynllun.

## 3.4 Arolwg o ben sgaffald

3.4.1 Gellir cael llawer o wybodaeth trwy gynnal archwiliadau'n uniongyrchol o ben y sgaffald. Mae pethau bob amser yn edrych yn wahanol pan ewch chi'n agos atynt, a gellir sylwi ar nodweddion bywyd gwyllt eraill nad oedd modd eu gweld o'r llawr.

3.4.2 Bydd y cynllun IWA yn dechrau unwaith y bydd sgaffald wedi'i godi. Gofynnwch i reolwr y safle fynd gyda'r ecolegydd i gynnal archwiliad agos. Marciwch unrhyw dyllau a chytunwch ynghylch y strategaeth liniaru yn y fan a'r lle. Dylech ddilyn hynny'n syth gyda rhestr i gadarnhau'r mesurau lliniaru sydd wedi eu cytuno, yn ogystal â manylion unrhyw flychau ystlumod/adar sydd angen eu prynu (gan gynnwys rhifau'r modelau a'r ffynonellau). Os rhowch chi ddolen at y siop a'r eitem i reolwr y safle bydd hynny'n help o ran sicrhau y bydd yn prynu'r peth Iawn.

3.4.3 Bydd y sgaffald yn cael ei dynnu unwaith bod y gwaith wedi'i gwblhau. Cofiwch gynnal yr archwiliad o'r mesurau lliniaru (gweler Adran 6) cyn tynnu'r sgaffald.

# 4 DATA'R AROLWG

## 4.1 Cofnodion biolegol

4.1.1 Crynhowch fel bo'n briodol. Cofiwch barchu unrhyw gofnodion cyfrinachol.

## 4.2 Data'r arolwg ar droed

4.2.1 Mae enghraifft o daflen data i gofnodi'r nodweddion hynny y gall ystlumod neu adar eu defnyddio yn Nhabl B2-1, Atodiad B2-1. Cofnodwch unrhyw holltau/holltau posib y gallai ystlumod/adar eu defnyddio, naill ai fel mannau gorffwys/nythu neu a allai arwain at adeiledd arall y gallai ystlumod/adar ei ddefnyddio. Nodwch unrhyw sylwadau eraill, er enghraifft, os ydych chi'n ansicr a oes yna wagle yno ai peidio (gall fod yn gysgod), os oes adar i'w gweld o amgylch rhyw fan arbennig yn rheolaidd, a oes yna bortsh gyda tho llechi a lapiad plwm; ac/neu unrhyw nodweddion eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y tabl a allai fod yn berthnasol i'r gwaith arfaethedig, a'r effaith bosib ar rywogaethau a warchodir.

4.2.2 Ystyriwch *holl* waith arfaethedig y cynllun/yr eiddo dan sylw wrth gofnodi data.

4.2.3 Dylech hefyd gofnodi ble y gallai fod yn addas gosod gwelliannau.

4.2.4 Ar ôl cwblhau'r tabl, dylech ei atgynhyrchu ar fformat priodol, i'w gynnwys yn yr adroddiad.

# 5 MESURAU LLINIARU

5.1.1 Dylech benderfynu ar fesurau lliniaru priodol gyda rheolwr y safle ar gyfer eiddo sydd â materion i'w datrys. Mae ffigur B2-2 yn Atodiad B yn rhoi amlinelliad ar gyfer penderfynu ar y dull lliniaru. Ceir catalog o awgrymiadau parod ar gyfer lliniaru ym Mhecyn D, Rhan 3. Dylai'r ecolegydd fod yn ddigon profiadol i benderfynu ar y math o flwch (blychau) bywyd gwyllt sy'n addas ar gyfer y sefyllfa dan sylw.

5.1.2 Os nad oes yna ateb parod sy'n addas ar gyfer yr eiddo dan sylw, bydd rheolwr y safle'n trafod sut i gadw'r nodwedd, ac yn creu dull lliniaru sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer yr eiddo hwnnw.

5.1.3 Gall fod angen strategaeth liniaru wahanol ar gyfer pob eiddo sydd â materion i'w datrys, felly crëwyd 'Ffurflen Mesurau Lliniaru ac Archwilio Eiddo' (Pecyn D, Rhan 1) er mwyn i)

dewis dull lliniaru parod priodol ar gyfer eiddo penodol ii) darparu cofnod lliniaru ar gyfer ffeil yr eiddo hwnnw ac iii) cofnodi'r archwiliad o'r mesurau lliniaru. Llenwir ffurflen wahanol ar gyfer pob eiddo sydd angen mesurau lliniaru. Amlygir yr adrannau perthnasol (materion i'w datrys a'r dewis o fesurau lliniaru). Rhoddir y ffurflen i reolwr y safle fel bod modd cymeradwyo'r camau lliniaru a rhoi'r ffurflen yn y ffeil briodol.

5.1.4 Unwaith y byddant wedi'u datblygu, dylid rhoi manylion y mesurau lliniaru yn yr adroddiad, a dylai rheolwr y safle lofnodi i gadarnhau ei fod wedi darllen a deall y mesurau lliniaru ac yn bwriadu eu rhoi ar waith.

5.1.5 Cyfrifoldeb y contractwr/cleient yw gofyn caniatâd y deiliad i gyflawni'r mesurau lliniaru ond dylech sicrhau bod hynny wedi'i wneud fel bod modd ymgorffori'r ffactorau a nodwyd.

# 6 TRWYDDED RHANDDIRYMIAD Y RHYWOGAETHAU A WARCHODIR GAN EWROP (EPS)

6.1.1 Os oes posibilrwydd bod clwydfan ystlumod, hyd yn oed os yw'n bosibilrwydd bach, bydd angen Trwydded Rhanddirymiad y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) fel mesur rhagofalus, rhag ofn y bydd ystlumod (gweler Rhan 1 am fwy o wybodaeth). Mae trwydded enghreifftiol a thempled o'r datganiad dull cymeradwy yn Rhan 3).

# 7 ARCHWILIO'R MESURAU LLINIARU

7.1.1 Dylid cynnal archwiliad o'r holl nodweddion lliniaru a osodwyd. Cofiwch mai archwiliad o'r nodweddion lliniaru yw hwn yn hytrach na'r nodweddion gwella bioamrywiaeth. Bydd angen cynnal yr archwilio tra bo'r sgaffald yn dal yn ei le, rhag ofn y bydd yn rhaid addasu'r mesurau lliniaru. Bydd y sgaffald yn cael ei dynnu unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, ac felly mae'n hanfodol bod yr archwiliad yn cael ei drefnu gyda rheolwr y safle mewn da bryd (gan gofio mai ychydig ddyddiau'n unig sydd ei angen i gwblhau cynllun IWA os nad oes cymhlethdodau).

7.1.2 Mae'r 'Ffurflen Mesurau Lliniaru ac Archwilio Eiddo' (Pecyn D, Rhan 1) yn cynnwys blwch y gellir rhoi tic ynddo i gadarnhau bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

# 8 GWELLA BIOAMRYWIAETH

8.1.1 Dylech bob amser ofyn am osod nodweddion gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys blychau ystlumod ac adar.

8.1.2 Gosodwch darged, neu isafswm o nodweddion ar gyfer y contractwyr. Dylai'r targed fod yn is nag union nifer y tai addas ar y rhestr, oherwydd ni fydd pob perchennog am gael blychau bywyd gwyllt wedi'u gosod ar eu heiddo. Bydd rhai ardaloedd â chynefin cyfagos mwy addas nag eraill, ac felly bydd nifer y nodweddion a ddarperir yn amrywio ar gyfer bob cynllun. Bydd nifer y nodweddion hefyd yn dibynnu ar y gost. Dewiswch safleoedd

priodol ar gyfer blychau adar ac ystlumod (e.e. ger coed neu lystyfiant aeddfed, i ffwrdd o'r golau).

8.1.3 Darparwch restr o'r holl eiddo lle gellid darparu nodweddion gwella bioamrywiaeth, ynghyd â'r manylion (e.e. blwch adar neu flwch ystlumod, sawl un, math/model).

8.1.4 Rhaid i'r contractwyr gael caniatâd perchennog yr eiddo cyn gosod unrhyw nodweddion bioamrywiaeth. Mae taflen wybodaeth (Pecyn D, Rhan 5) i helpu perchenogion ansicr i benderfynu. Mae'n help hefyd os gall yr ecolegydd gynghori perchennog yr eiddo.

8.1.5 Dylai'r nodweddion gwella bioamrywiaeth fod yn rhai gwydn a fydd yn para mor hir â'r eiddo ei hun. Dewiswch flychau parod o ddeunydd *woodcrete* neu gynnyrch tebyg, y gellir eu hymgorffori yn yr insiwleiddiad ei hun (ac eithrio rhai mathau o flychau adar, e.e. rhes nythod aderyn y to neu nythod gwennol y bondo, sy'n gorfod cael eu gosod ar yr wyneb). Gellir defnyddio'r un mathau o flychau ystlumod â'r rhai a gynigir ar gyfer mesurau lliniaru. Gweler Catalog y Dulliau Lliniaru, Pecyn D, Rhan 3.

# 9 YR ADRODDIAD

## 9.1 Fformat yr Adroddiad


9.1.1 Bydd angen llunio adroddiad ar gyfer y contractwyr. Ceisiwch wneud yr adroddiad mor syml â phosib ac yn rhwydd ei ddarllen a'i bod hi'n haws dewis a dethol yr wybodaeth berthnasol ohono'n ddidrafferth. Mae enghraifft o fformat addas yn Atodiad D.

9.1.2 Dylech drin yr adroddiad yn ddogfen waith y gellir ei newid. Dylech lunio adroddiad cychwynnol yn syth ar ôl cynnal yr arolwg ar droed. Cyn dechrau ar unrhyw waith, gwnewch yn siŵr bod gan reolwr y safle gopi o'r adroddiad a'i fod wedi'i lofnodi i gadarnhau ei fod wedi darllen a deall y mesurau, ac yn bwriadu rhoi unrhyw fesurau sydd wedi eu nodi ar waith. Mae hynny hefyd yn golygu y gellir trafod unrhyw waith arolygu a lliniaru pellach ymlaen llaw. Dylech ddiweddaru'r ddogfen gyda chanlyniadau unrhyw arolygon pellach yn nes ymlaen, ac wrth i eiddo gael ei ychwanegu neu'i dynnu allan o'r cynllun (os oes angen), gan wneud yn siŵr bod pob fersiwn yn cael ei llofnodi.

9.1.3 Cyflwynwch ganlyniadau'r arolwg ar droed yn yr adroddiad i'r contractwyr. Rhestrwch yr holl dai, p'un ai oes materion i'w datrys ynddynt ai peidio. Mae cynnwys y tai hynny sydd heb faterion i'w datrys yn y tabl i) yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig nad oes angen camau dilynol ar y tai hyn ac ii) yn dangos i reolwyr a chontractwyr y prosiect bod y tai dan sylw wedi'u harolygu. Os na chaiff y tai hynny eu cynnwys yn y tabl bydd ansicrwydd yn eu cylch.

9.1.4 Mae hefyd yn bwysig dangos pa wybodaeth a gafwyd ar y pryd ynglŷn â'r gwaith ar yr eiddo hwnnw, fel y bydd pethau'n glir os bydd angen i'r contractwyr gysylltu â'r Ecolegydd ynghylch unrhyw newidiadau i'r gwaith angenrheidiol.

# APPENDIX A: SURVEY METHOD





**Ffigur B2-1: Strategaeth arolwg y rhywogaethau a warchodir**

*Where bat records exist, lack of bat access MUST be confirmed by closer inspection and void inspection where necessary, otherwise emergence/re-entry surveys are required.

**if access points can't be retained or roof works are proposed but there is no access to the void (confirmed through internal inspection/endoscope from scaffold), suitable mitigation can be proposed in accordance with B2.2 as part of the method statement and precautionary licence application and therefore further survey work would be needed may be avoided.

# ATODIAD B: Y DULLIAU LLINIARU

**Ffigur B2-2:** Dewis y strategaeth liniaru



# ATODIAD C: TAFLEN DDATA’R AROLWG AR DROED

Tabl B2-1: Enghraifft o daflen ddata’r arolwg ar droed

| **Address** | **Contractor ref** | Holes (tick) | | | | | | | | M / U* | **Comments / other observations** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Roof | Soffit | Fascia | Lead flashing | Walls | Eaves | Bargeboard /Copings | Birds | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |

*M = mitigation required; U = uncertain whether feature present; closer inspection required
If M, give a suggestion as to a suitable strategy in the comments column
If U, a decision will be made on mitigation after the potential feature has been inspected (eg from the scaffold)

Ticiwch y nodweddion y gallai ystlumod neu adar eu defnyddio, neu a all arwain at adeiledd arall y mae ystlumod/adar yn ei ddefnyddio

Yn y blwch sylwadau, nodwch unrhyw sylwadau eraill, er enghraifft, os nad ydych chi’n siŵr a oes twll ai peidio (gall fod yn gysgod), os yw’r adar i’w gweld o amgylch man arbennig yn rheolaidd, os oes yna bortsh gyda tho llechi a lapiad plwm; unrhyw nodweddion eraill nad ydynt wedi’u rhestru yn y tabl a allai fod yn berthnasol i’r gwaith arfaethedig, a’r effaith bosib ar y rhywogaethau a warchodir.

# ATODIAD D: TEMPLED YR ADRODDIAD

**Y dudalen flaen gyda thaflen i'w llofnodi.**

**CYFLWYNIAD**

Cefndir y cynllun

- *pwy yw'r ymgynghoriaeth ecolegol*
- *pwy gomisiynodd yr arolwg ecolegol*
- *(tua) faint o dai sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun*
- *map/cynllun yn dangos ardal ddaearyddol y cynllun yn fras*

Y gwaith arfaethedig

- *crynodeb by*

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth (ystlumod ac adar)

- *crynodeb byr o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ystlumod ac adar*

**Y DULLIAU**

Arolwg bwrdd gwaith

Arolwg ar droed

- *pwy gynhaliodd yr arolwg; cymwysterau*

Cyfyngiadau'r arolwg

**Y CANLYNIADAU**

Arolwg bwrdd gwaith

- *crynodeb byr iawn yn nodi a oes unrhyw ystlumod neu nythod adar o fewn ardal y cynllun, gan osgoi rhoi cyfeiriadau nac ychwaith unrhyw fanylion penodol am y lleoliad*

Arolwg ar Droed

- *disgrifiad byr o'r mathau o dai sy'n destun cynllun IWA*
- *crynodeb o sylwadau cyffredinol, a oes yna holltau addas y gallai ystlumod/adar eu defnyddio; unrhyw dystiolaeth o ddefnydd gan rywogaethau a warchodir*
- *sylwadau ynghylch pa mor addas yw'r ardal gyfagos fel cynefin ystlumod*
- *tabl o ganlyniadau'r arolwg ar droed (e.e. fersiwn wedi'i theipio o daflen ddata'r arolwg ar droed)*

Archwilio gwagleoedd

- *nodi unrhyw arwyddion o ystlumod, 'nawr neu yn y gorffennol*

- *os nad oes dim arwyddion, nodi unrhyw fannau lle gallai ystlumod gael mynediad, a ph'un ai a ellid colli'r rhain o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig (IWA neu waith arall ar y to os yw hynny yn y cynllun)*

Arolygon o'r ystlumod yn dod allan [os cynhaliwyd rhai; ni fyddant yn rhan o'r adroddiad cychwynnol]

- *adrodd yn ôl y cyfarwyddiadau sydd yn y canllawiau cyhoeddedig.*

**CASGLIADAU**

- *nodi a yw'r amgylchedd a'r adeiladau lle mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n addas ar gyfer ystlumod ai peidio*
- *nodi a oes angen arolygon pellach ai peidio; e.e. nodi faint o dai sydd angen mesurau lliniaru (gan roi ystyriaeth i'r gwaith angenrheidiol).*

**DATGANIAD DULL**

- *Dechreuwch ar dudalen newydd er mwyn i reolwr y safle allu dod o hyd i'r adran berthnasol yn rhwydd a'i phrintio*
- *Byddai cymal ar y dechrau'n help o ran atgoffa rheolwr y safle o'r rheidrwydd sydd arno i weithredu'r mesurau lliniaru yn y ffordd gywir: e.e. "Dylai'r adran hon gael ei darllen a'i gweithredu gan bob un perthnasol, gan gynnwys rheolwr y safle a fforman y tîm."*
- *Llenwch y ffurflen 'Mesurau Lliniaru ac Archwilio Eiddo' ar gyfer bob un o'r tai sydd angen mesurau lliniaru; a geir mewn atodiad ar y diwedd.*

Hyfforddiant

- *pwysleisiwch yr angen am sgwrs 'bocs tŵls'.*

Lliniaru Effeithiau Insiwleiddio Waliau Allanol

- *rhowch fanylion y strategaeth liniaru mewn camau clir*
- *rhowch amseriad y mesurau lliniaru - e.e. mae archwiliadau o ben y sgaffald yn gofyn bod rheolwr y safle'n trefnu i'r ecolegydd fod ar y safle unwaith y mae'r sgaffald wedi ei godi.*

Archwilio'r Mesurau Lliniaru

**GWELLIANNAU**

- *gosodwch darged; lleiafswm o nodweddion i anelu amdanynt*

- *rhowch dabl neu restr o'r holl dai lle gellid darparu nodweddion gwella bioamrywiaeth, ynghyd â'r manylion (e.e. blwch adar neu flwch ystlumod, sawl un, math/model)*
- *nodwch fod angen caniatâd y perchennog.*
- *cyfeiriwch y perchennog/rheolwr y safle at y cwestiynau a ofynnir yn aml am flychau ystlumod ac adar.*